Cyfle cyfartal mewn cael defnydd o gynhyrchion a gwasanaethau

Mae'r ddogfen hon yn nodi polisi City & Guilds o ran sicrhau cyfle cyfartal a chael defnydd o gynhyrchion a gwasanaethau.

Ymrwymiad
Rydym yn cefnogi cyfle cyfartal mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau nad yw neb sydd am ennill un o'r cymwysterau neu ddyfarniadau'n wynebu rhwystrau diangen rhag gwneud hyn.

Nodweddion arbennig
At ddibenion y polisi hwn, rydym am sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr oherwydd eu hoed, anabledd, ailbennu rhyw, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, tueddiad rhywiol a/neu farn wleidyddol.

Nodau
I ddiwallu ein hymrwymiad byddwn yn:

- datblygu ac yn cynnig cynhyrchion a gwasanaethau sydd wedi'u seilio'n unig ar ofynion galwedigaethol, technegol, proffesiynol neu statudol ac nad ydynt yn gwahaniaethu'n ddiangen yn erbyn unrhyw un ar sail y nodweddion penodol a nodir yn y polisi hwn

- sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb yn rhan annatod o broses ddatblygu a hyfforddi staff mewnol ac ymgynghorwyr

- ymgynghori ag unigolion a sefydliadau perthnasol yr ystyriwn eu bod yn briodol i sicrhau nad oes rhwystrau diangen i atal mynediad mewn perthynas â'n cynhyrchion a'n gwasanaethau

- hwyluso mynediad i asesu trwy gael trefniadau clir yn eu lle i wneud addasiadau rhesymol a fydd yn adlewyrchu anghenion dysgwyr unigol ac yn sicrhau bod yr asesiad yn aros yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn gyson lle caiff addasiadau eu cymeradwyo

- sicrhau bod gan ein canolfannau eu polisi cyfle cyfartal eu hunain sy'n gweithio ar y cyd gyda'n polisi ni, a bod ganddynt systemau a gweithdrefnau yn eu lle i weithredu ac i fonitro'r polisi'n effeithiol

- sicrhau bod gan ein canolfannau weithdrefn apeliadau a chwynion a'u bod yn cymryd camau i sicrhau bod ymgeiswyr yn deall hyn, a sut a phryd i apelio neu i gwyno i City & Guilds.

Mae hon yn ddogfen electronig. Gellir cyrchu'r fersiwn diweddaraf yn electronig. Nid yw'r holl gopïau a argreffir yn cael eu rheoli.

Rhoi'r polisi hwn ar waith
I roi'r polisi hwn ar waith yn llwyddiannus byddwn yn:

- ei wneud ar gael i'r holl staff, ymgynghorwyr a chanolfannau, ac i unrhyw un sydd yn gofyn amdano, ac yn rhoi cyhoeddusrwydd clir iddo ar ein gwefan
- trefnu gweithgareddau datblygiad i'n holl staff ac ymgynghorwyr sydd yn ymwneud â datblygu a sicrhau ansawdd ein cynhyrchion a'n gwasanaethau
- cyfeirio'n benodol at nodau'r polisi hwn wrth ddatblygu ac adolygu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau
- cynnal gweithgor i fonitro, adolygu a gwella effeithiolrwydd y polisi hwn yn gyson.

Mae hon yn ddogfen electronig. Gellir cyrchu'r fersiwn diweddaraf yn electronig. Nid yw'r holl gopïau a argreffir yn cael eu rheoli.